GWEITHGOR DYFFRYN AERON

Creu Cwmni Cydweithredol yn Nyffryn Aeron

The sense of community is the strongest I've ever experienced...
This closure has nothing whatsoever to do with the local workforce.
It is entirely due to circumstances not of their making...'

David Gray - Cyn-Reolwr Safle, Aeron Valley Cheese

1 Pam fod Gweithgor Dyffryn Aeron yn bodoli?

Dairygold

Ar Ebrill 13eg 2006 collodd 115 o weithwyr yn Nyffryn Aeron eu swyddi pan gaewyd ffatri bacio caws Dairygold. Arweiniodd hyn at ffurfio Grŵp Ymgyrchu Dairygold gan griw o bobl yn Nyffryn Aeron. Nod y grŵp oedd yn gyntaf i geisio sicrhau na fyddai ffatri enfawr ac adnoddau safle Dairygold House yn aros yn wag, ac yn ail i geisio sicrhau bod grantiau gafodd Dairygold gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu had-dalu. Roedden nhw hefyd am wneud yn siŵr nad oedd y stori'n diflannu o sylw'r cyhoedd.

Ar Fedi 21ain 2006 llwyfanwyd sioe ddychanol Drwg yn y Caws yn Theatr Felin-fach gafodd gyhoeddusrwydd eang, a 3 diwrnod wedi'r sioe cyhoeddodd y Gweinidog Cefn Gwlad, Carwyn Jones, ei fod yn ystyried erlyn y cwmni. Aeth dau gynrychiolydd o Grŵp Ymgyrchu Dairygold i gyfarfod â Carwyn Jones ar Dachwedd 29ain 2006 a chawsant sicrwydd ei fod yn awyddus i drafod unrhyw syniadau positif oedd yn codi o'r gymuned leol ynghylch dyfodol safle Dairygold House.

Ar Chwefror 19eg 2007 cyhoeddodd Carwyn Jones rybudd olaf i Dairygold, a rhai diwrnodau'n ddiweddarach dywedodd o'r diwedd ei fod yn bendant am erlyn y cwmni. Mae'r broses gyfreithiol yn erbyn Dairygold yn dal i fynd yn ei blaen hyd heddiw.

Aeron Valley Cheese

Wythnos wedi rhybudd olaf Carwyn Jones i Dairygold, cyhoeddodd Cwmni Aeron Valley Cheese ar Chwefror 26ain 2007 y bydden nhw'n cau ymhen y mis, ac y byddai 44 o swyddi pellach yn diflannu o Ddyffryn Aeron. Aeth Grŵp Ymgyrchu Dairygold ati i drefnu cyfarfod cyhoeddus yn Theatr Felin-fach ar Fawrth 20fed 2007, a gwahodd trawsdoriad eang o bobl i'r cyfarfod hwn. Roedd y rhai oedd yn bresennol yn cynnwys yr Aelod Cynulliad, Uwch-swyddogion ac arweinwyr Gyngor Sir Ceredigion, yr undebau amaethyddol, cynhyrchwyr llaeth, cwmnïau llaeth, ymgynghorwyr annibynnol ac arbenigwyr eraill, a gweithwyr Aeron Valley Cheese a chyn-weithwyr Dairygold.

O'r cyfarfod hwn datblygodd Gweithgor Dyffryn Aeron. Mae'r Gweithgor wedi cyfarfod bob rhyw 3 wythnos ers mis Mawrth ac wedi datblygu agenda cadarnhaol ar gyfer dyfodol creu gwaith cynaliadwy yn Nyffryn Aeron.

2 Agenda

Adeiladu ar, a defnyddio, cryfderau Dyffryn Aeron

Fel y cawson nhw'u crynhoi yn y cyfarfod cyhoeddus gwreiddiol, dyma'r cryfderau:

- gwartheg
- porfeydd rhagorol
- pobol a chymdeithas
- Volac gerllaw
- ansawdd y llaeth ac enw da'r ardal am ansawdd
- Horeb mor agos
- cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad
- sgiliau & medrau (yn arbennig o ran prosesu a chynhyrchu llaeth)
- adnoddau - dwy ffatri wag
- teulu o fusnesau i helpu ei gilydd
- brwdfrydedd ac ymroddiad aelodau'r Gweithgor i greu gwaith.

Pwyntiau gweithredu

Fel y mae'r rhain wedi datblygu yn y cyfarfodydd:

- cael perchnogaeth o ffatri Aeron Valley Cheese
- datblygu busnes lleol
- sicrhau cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad
- sicrhau arian i wneud ymchwil
- marchnata delwedd llaeth Dyffryn Aeron a Cheredigion
- trefniant ffurfiol.

Syniadau Cynnrych i'w profi

Yn ystod tri chyfarfod cyntaf y Gweithgor casglwyd llu o syniadau am gynnyrch posib. Ers hynny, defnyddiwyd profiad mewnol ac ymgynghoriaeth allanol er adnabod y prif bosibiliadau canlynol i'w hymchwilio...

CYNNYRCH LLAETH

- ail-ddatblygu pwdinau a chwstard Cymraeg (h.y. cynnyrch Llangadog, gynt, ond gyda golwg ar dechnoleg pecynnu cyfoes)
- cawsau meddal cyfandirol (tŵf mawr yn y farchnad / y cynnyrch yn cael ei fewnforio ar hyn bryd)

- menyn Cymreig

POSIBILIADAU ERAILL

- datblygu safle Aeron Valley Cheese fel canolfan casglu a dosbarthu ar ran cynhyrchwyr bwyd (model Sir Benfro)
- paratoi bwydydd parod gyda golwg arbennig ar anghenion awdurdodau lleol

Nododd rhai cynhyrchwyr llaeth presennol eu parodrwydd i edrych ar bosibiliadau cynhyrchu *biofuel*.

3 Cyngor Arbenigol

Arwyn Davies, gynt o Gyfeiriadaeth Fwyd Cymru

Dadansoddiad manwl o'r diwydiant llaeth yn Ewrop. Amlinelliad o fentrau cydweithredol mewn cymunedau gwledig tebyg i Ddyffryn Aeron. Nodi cryfderau'r ardal o ran cynnyrch llaeth, gweithlu ayb, a pha mor unigryw a manteisiol yw cael grŵp fel Gweithgor Dyffryn Aeron i arwain y drafodaeth a'r gweithredu. Pwysleisio ei bod yn bosib i fenter leol lwyddo.

David Edwards - DWE Consulting Ltd

Crynhoi sefyllfa'r farchnad fwyd, edrych ar y bylchau yn y farchnad bresennol ac i'r dyfodol o safbwynt cynnyrch llaeth, edrych ar y galw wrth y prynwr cyffredin, a beth mae'n chwilio amdano mewn cynnyrch newydd, ac edrych ar y broses gynhyrchu a ble fyddai cwmni yn Nyffryn Aeron yn gallu dod yn rhan o'r farchnad. Ymrwymiad wrth David i'n helpu ni pan fydd angen yn y dyfodol.

Norman Watson: Canolfan Cydweithredol Cymru

Cyflwyniad gan y person wnaeth gynghori Tyrone O'Sullivan a gweithwyr Glofa'r Tŵr wrth iddyn nhw brynu'r busnes. Adroddiad ar y broses o ffurfio cwmni cydweithredol a'r math o gymorth sydd ar gael. Ymrwymiad y gallen ni gael cymorth wrth Ganolfan Cydweithredol Cymru dim ond i ni greu cynllun busnes cadarn.

Arbenigwyr eraill

Mae swyddogion Agrisgôp (Menter a Busnes) wedi datgan diddordeb yng ngwaith y Gweithgor ac yn cynnig cefnogaeth ymgynghorol i ni yn ôl y galw.

Hefyd, mae'n bwysig cofio fod y grŵp ei hun yn cynnwys nifer o arbenigwyr gwahanol ym meysydd...

- cynhyrchu llaeth
- prosesu llaeth
- rheoli safle / proses gynhyrchu

4 Cymorth Ariannol

Cymorth sydd ar gael i Weithgor Dyffryn Aeron heb orfod cyfarfod â'r Gweinidog

Arian refeniw (50%) ar gyfer pwyso a mesur opsiynau, brandio a marchnata, gwaith ymchwil, cynllunio, cysylltiadau cyhoeddus.

Arian cyfalaf (50%) ar gyfer prynu peiriannau newydd, prynu peiriannau ail-law, dodrefnu (fit-out), prynu adeilad

Gallai prosiect yn Nyffryn Aeron ddenu grantiau refeniw + cyfalaf, ac mae symudiad cyffredinol oddi wrth ariannu sefydliadau datblygu cymunedol tuag at brosiectau (e.e. prosiect yn Nyffryn Aeron).

Cymorth ychwanegol o gael Gweinidog i wrando ac ymateb

Arian penodol ar gyfer Dyffryn Aeron yn wyneb y colledion swyddi (Aeron Valley Cheese a Dairygold), gan gynnwys grantiau cyfalaf, cymorth i brynu'r adeilad, y defnydd posib ar arian RDP (o fis Tachwedd / Rhagfyr ymlaen), ond mae'r penderfyniadau hyn yn nwylo'r Gweinidog.

5 Dewisiadau gweithredu

5.1 Mynd ar ein pennau ein hunain a ffurfio Cwmni Cydweithredol nawr

Mynd ati i greu Cwmni Cydweithredol...

5.1.1 ffurfioli gweithgor Dyffryn Aeron

5.1.2 gwneud cais swyddogol am arian wrth y Cynulliad i gynnal astudiaeth dichonolrwydd

5.1.3 penodi rhywun i gynnal astudiaeth ac adrodd yn ôl

5.1.4 gofyn am gyngor wrth Ganolfan Cydweithredol Cymru ac eraill

5.1.5 dewis cynnyrch

5.1.6 creu Cynllun Busnes

5.1.7 ceisiadau am grantiau

5.1.8 cyflogi a chynhyrchu.

5.2 Mynnu bod y Gweinidog perthnasol yn ymateb

5.2.1 cynnal y pwysau ar Lywodraeth y Cynulliad (a'r Gweinidog perthnasol yn

arbennig) i ymateb

5.2.2 cynnal trafodaethau gyda “Tasglu’r Cynulliad”

5.2.3 gweld beth ddaw o’r trafodaethau hyn.

5.3 Gwneud y ddau ar yr un pryd

Gallwn ni wneud y ddau beth uchod ar yr un pryd, a bod y Cwmni Cydweithredol yn rhan ganolog o’r agenda yn y drafodaeth gyda’r Gweinidog. Mae’n werth cofio er bod yr ail opsiwn yn llawer haws na’r cyntaf bod peryg i ni golli rheolaeth ar y broses yn gyfan gwbl os dewiswn yr opsiwn hwn yn unig.

6 Camau nesaf

6.1 Ysgrifennu at Gwmni Caledonian Cheese Company Limited i ofyn am fanylion safle Aeron Valley Cheese a datgan diddordeb yn y safle. ✓

6.2 Paratoi datganiad i’r wasg yn herio’r gweinidog newydd i fynd i’r afael â’r sefyllfa yn Nyffryn Aeron. ✓

6.3 Mynd ati i wneud y gwaith paratoi sydd angen i ffurfio Cwmni Cydweithredol. ✓

6.4 Ffurfioli Gweithgor Dyffryn Aeron drwy wahodd aelodau o’r grŵp i ymuno â’r Cwmni Cydweithredol newydd. ✓

6.5 Gwneud cais ar ran y Cwmni Cydweithredol am arian i gynnal astudiaeth dichonolrwydd. ✓

Y Cyng. Owen Llywelyn

Euros Lewis

Gweithgor Dyffryn Aeron

Gorffennaf, 2007